

# YSGOLION YR 21AIN GANRIF



## ATODIAD C – ASESAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I AGOR YSGOL ARBENNIG 3 I 19 NEWYDD YN RHONDDA CYNON TAF A CHYFLWYNO DALGYLCHOEDD AR GYFER YSGOLION ARBENNIG.

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r atodiadau yma hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor

## FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) er mwyn cydymffurfio â [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#).

| <b>Cam 1 – Casglu Gwybodaeth</b>   |   |
|--|---|
| <b>NODER:</b> Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno <b>tystiolaeth i ategu'ch sylwadau</b> . Gweler <a href="#">Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg</a> i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. |   |
| <b>Enw'r Cynnig</b>  | Agor ysgol arbennig 3 i 19 newydd yn Rhondda Cynon Taf a chyflwyno dalgylchoedd ar gyfer ysgolion arbennig.   |
| <b>Adran</b>   | Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant – Carfan Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif.   |
| <b>Cyfarwyddwr Gwasanaeth</b>  | Andrea Richards.  |
| <b>Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg</b>  | Lisa Howell.  |
| <b>E-bost</b>  | <a href="mailto:Lisa.J.Howell@rctcbc.gov.uk">Lisa.J.Howell@rctcbc.gov.uk</a>  |
| <b>Ffôn</b>  | Dd/B.   |
| <b>Disgrifiad Cryno</b>  | <p>Mae'r Cyngor yn dymuno clywed barn rhanddeiliaid ar y cynigion i agor ysgol arbennig 3 i 19 newydd (cyfrwng Saesneg) yn RhCT ar gyfer 180 o ddisgyblion. Serch hynny, bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad asesiad dichonoldeb pellach ac yn dilyn bwrw ymlaen â chynllun manwl yr ysgol newydd. Bydd yr ysgol newydd yn darparu addysg i ddisgyblion sydd ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a nam ar y synhwyrâu.</p> <p>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn ardal Cwm Clydach, Tonypandy, ac yn agor ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2026 fan bellaf. Mae'r ysgol newydd yn ychwanegol at y pedair ysgol arbennig arall sydd eisoes ar agor yn Rhondda Cynon Taf.</p> <p>Yn ogystal â hynny, y cynnig yw cyflwyno dalgylchoedd ar gyfer yr holl ysgolion arbennig 3 i 19 ar draws RhCT, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ysgol Arbennig Park Lane</li><li>• Ysgol Hen Felin</li></ul> |

|   |  |
|---|--|
|   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgol Tŷ Coch</li> </ul> <p>Byddai'r ysgol arbennig 3-19 newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â gofynion cynllunio cyfredol a deddfwriaethau rheoli adeiladu. Bydd yr ysgol hefyd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr ysgol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amgylcheddau dysgu modern, hyblyg i bob disgybl, neuadd/ardal giniawa, ac ardaloedd addysgu a dysgu arbenigol i ddarparu ar gyfer anghenion pob disgybl.</li> <li>• Pwll hydrotherapi ynghyd ag offer arbenigol synhwyraidd ac ysgogol arall.</li> <li>• Ardal benodol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.</li> <li>• Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau mae'r cwricwlwm yn eu cynnig.</li> <li>• Dulliau rheoli traffig, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff.</li> </ul> <p>Bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben.</p> <p>Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol ac, os oes angen, byddwn ni'n buddsoddi mewn gwelliannau i'r llwybrau cerdded, croesfannau ffyrdd a mesurau arafu traffig i fodloni'r safonau diogelwch gofynnol. Dyma'r dull rydyn ni wedi'i roi ar waith mewn cymunedau eraill gan ddefnyddio rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B, rhaglen sydd wedi galluogi gwelliannau sylweddol.</p> |
| <b>Dyddiad</b>  | 17 Mai 2023.   |
| <b>Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (Defnyddwyr Gwasanaethau, Gweithwyr, y Gymuned Ehangach)</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyrff Llywodraethu: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ysgol Arbennig Park Lane</li> <li>○ Ysgol Hen Felin</li> <li>○ Ysgol Tŷ Coch gan gynnwys Buarth y Capel</li> </ul> </li> <li>• Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid (lle bo modd), ac aelodau staff: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ysgol Arbennig Park Lane</li> <li>○ Ysgol Hen Felin</li> <li>○ Ysgol Tŷ Coch gan gynnwys Buarth y Capel</li> </ul> </li> <li>• Disgyblion a staff: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ysgol Arbennig Park Lane</li> <li>○ Ysgol Hen Felin</li> <li>○ Ysgol Tŷ Coch gan gynnwys Buarth y Capel</li> </ul> </li> <li>• Cymuned leol ardal Cwm Clydach, Tonypany.</li> </ul>   |

|   |  |
|---|--|
| <p><b>Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?</b></p>  | <p>Mae gan Rondda Cynon Taf ystod ardderchog o ysgolion arbennig. Serch hynny, mae'r galw am lefydd mewn ysgolion arbennig bellach yn fwy na'r llefydd sydd ar gael.</p> <p>Bydd adeiladu ysgol arbennig newydd ar gyfer disgyblion 3-19 oed yn cynnyddu capasiti ac yn golygu bod modd i Rondda Cynon Taf ehangu ei ddarpariaeth wrth barhau i fodloni ei rwymedigaethau statudol. Trwy adeiladu ysgol arbennig newydd, bydd y Cyngor hefyd yn bodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ALNET 2018), a'r newidiadau sylweddol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth statudol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY.</p> <p>Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yma'n cynrychioli'r cyfle gorau i ddiogelu a chynnal safonau addysgol ar gyfer y dyfodol a'i fod yn darparu llwyfan ar gyfer gwelliannau pellach trwy fuddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau parhaol ac addas i'r diben.</p> <p>Er mai cyfrwng Saesneg fydd yr ysgol newydd, bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu yn rhan annatod o'r cwricwlwm a bydd pob disgybl ar ei ennill o gael ei addysgu mewn cyfleusterau newydd sbon sy'n addas ar gyfer y 21<sup>ain</sup> ganrif.</p> <p>Y nod yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol sy'n hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, i sicrhau bod disgyblion ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob disgybl fod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hannog a'i chefnogi i wneud hyn drwy gyflawni 'Cymraeg Campus', sef fframwaith i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg.</p> <p>Yn ogystal â hynny, bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben. Byddai modd i drydydd partiön ddefnyddio'r cyfleusterau i gynnig dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolio Yn Ysgol Gymuned Tonyrefail mae'r gwaith yma eisoes yn mynd rhagddo wrth i'r ysgol gynnal dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn y cyfleusterau cymunedol. Byddai modd i ddosbarthiadau fel hyn gyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a hefyd at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA).</p> |
| <p><b>Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg?</b></p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyrff Llywodraethu: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ysgol Arbennig Park Lane</li> <li>○ Ysgol Hen Felin</li> <li>○ Ysgol Tŷ Coch gan gynnwys Buarth y Capel</li> </ul> </li> </ul>   |

|   |   |
|---|---|
| <p><b>Os felly, rhestrwch nhw yma.</b></p>                                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid (lle bo modd), ac aelodau staff: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ysgol Arbennig Park Lane</li> <li>○ Ysgol Hen Felin</li> <li>○ Ysgol Tŷ Coch gan gynnwys Buarth y Capel</li> </ul> </li> <li>• Disgyblion a staff: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ysgol Arbennig Park Lane</li> <li>○ Ysgol Hen Felin</li> <li>○ Ysgol Tŷ Coch gan gynnwys Buarth y Capel</li> </ul> </li> <li>• Cymuned leol ardal Cwm Clydach, Tonypandy.</li> </ul> <p>Rydyn ni hefyd yn ceisio barn sawl rhanddeiliad gan gynnwys y grwpiau iaith Gymraeg canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mudiad Meithrin</li> <li>• Menter Iaith.</li> <li>• Comisiynydd y Gymraeg.</li> </ul> <p>Dylai unrhyw effaith ar grwpiau iaith Gymraeg fod yn gadarnhaol gan y bydd yr ysgol gumunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben. Byddai modd i drydydd partion ddefnyddio'r cyfleusterau i gynig dosbarthiadau dysgu cyfrwng Gymraeg i oedolion.</p>  |
| <p><b>Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw</b></p> | <p>Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, (e.e. data LSOA), bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.</p> <p>Mae'r tabl isod yn dangos sgiliau Cymraeg trigolion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yng Nghymru. Mae'r data'n deillio o Gyfrifiad 2011.</p> |

| <b>Sgiliau Cymraeg Trigolion (Cyfrifiad 2011)</b>                        |                          |              |
|--|--------------------------|--------------|
| <b>Lefel Sgiliau Cymraeg</b>   | <b>Rhondda Cynon Taf</b> | <b>Cymru</b> |
| <b>Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg</b>                    | 9.7%                     | 14.6%        |
| <b>Yn gallu siarad a darllen Cymraeg ond yn methu â'i hysgrifennu</b>    | 0.9%                     | 1.5%         |
| <b>Yn gallu siarad Cymraeg ond yn methu â'i darllen na'i hysgrifennu</b> | 1.6%                     | 2.7%         |
| <b>Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig</b>                             | 4.2%                     | 5.3%         |
| <b>Cyfuniad Arall o Sgiliau</b>  | 3.3%                     | 2.5%         |
| <b>Dim sgiliau</b>   | 80.4%                    | 73.3%        |
| <b>Cyfanswm</b>  | <b>100%</b>              | <b>100%</b>  |

Mae'r data'n dangos bod lefel sgiliau Cymraeg trigolion Rhondda Cynon Taf yn is na lefel sgiliau Cymraeg Cymru gyfan.

Mae'r tabl isod yn dangos sgiliau Cymraeg trigolion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r data yn deillio o Gyfrifiad 2021.

| <b>Sgiliau Cymraeg Trigolion – (Cyfrifiad 2021)</b>   |                          |              |
|---|--------------------------|--------------|
| <b>Lefel Sgiliau Cymraeg</b>                          | <b>Rhondda Cynon Taf</b> | <b>Cymru</b> |
| <b>Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg</b> | 9.8%                     | 13.8%        |
| <b>Yn gallu siarad a darllen Cymraeg</b>              | 0.7%                     | 1.1%         |

|  |             |             |
|--|-------------|-------------|
| <b>ond yn methu â'i hysgrifennu</b>                                      |             |             |
| <b>Yn gallu siarad Cymraeg ond yn methu â'i darllen na'i hysgrifennu</b> | 1.4%        | 2.2%        |
| <b>Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig</b>                             | 3.9%        | 5.0%        |
| <b>Cyfuniad Arall o Sgiliau</b>  | 5.5%        | 5.2%        |
| <b>Dim sgiliau</b>   | 78.7%       | 72.7%       |
| <b>Cyfanswm</b>  | <b>100%</b> | <b>100%</b> |

Mae'r data'n dangos bod lefel sgiliau Cymraeg trigolion Rhondda Cynon Taf yn is na lefel sgiliau Cymraeg Cymru gyfan.

Mae'r data'n dangos bod lefel sgiliau Cymraeg trigolion Rhondda Cynon Taf a lefel sgiliau Cymraeg Cymru gyfan yn is yn 2021 nag yn 2011.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith ar gyfer 2013 i 2015 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ruglder siaradwyr Cymraeg a'u defnydd o'r Gymraeg mewn ystod o leoliadau. Wrth edrych lle dysgodd y rheiny a ymatebodd sy'n byw yng Nghymru siarad Cymraeg, dysgodd y mwyafrif, sef 45%, siarad Cymraeg gartref. Dysgodd 26.0% siarad Cymraeg yn yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd pan oedden nhw rhwng 2 a 10 oed a dysgodd 14.0% siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd yn 11 oed a hŷn. Dysgodd y 2.0% arall siarad Cymraeg mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys ar gyrsgiau cyfrwng Cymraeg i oedolion.

Mae'r data'n dangos bod lefel sgiliau Cymraeg trigolion Rhondda Cynon Taf yn is na lefel sgiliau Cymraeg Cymru gyfan. Mae cynigion fel yr un yma'n gwella'r amgylchedd dysgu a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn sylweddol. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymorth wedi'i roi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Cafodd y gwaith yma ei wneud trwy Siarter Iaith Cyngor Gwynedd, ac amryw o brosiectau eraill, ar y cyd â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De

|  |   |
|--|---|
|  | <p>a'r Urdd. Byddai modd i hynny gyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a chyfrannu at y CSGA.</p>   |
| <b>Data neu ymchwil perthnasol arall</b> | <p><b>Beth yw categori iaith yr ysgol?</b></p> <p>Categori iaith arfaethedig yr ysgol yw Saesneg. Mae angen darpariaeth arbenigol ar ddisgyblion ag anghenion sylweddol sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi mewn ysgolion prif ffrwd. Mae gan y Cyngor ystod o ddarpariaethau arbenigol sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Pedwar deg pump o ddsbarthiadau cynnal/cymorth dysgu.<ul style="list-style-type: none"><li>○ Un dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg cyfnod allweddol tri.</li><li>○ Un dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg cyfnod allweddol pedwar.</li></ul></li><li>• Dwy uned atgyfeirio disgyblion.</li><li>• Pedair ysgol arbennig.</li></ul> <p>Cyfarwyddiaeth Addysg y Cyngor a Phaneli'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant sy'n cytuno ar y ddarpariaeth a'r lleoliad gorau ar gyfer disgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol.</p> <p>Yn ogystal â'r rhain mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ymgynghori ar agor rhagor o ddsbarthiadau cynnal dysgu yn RhCT gan gynnwys 2 ddsbarth cynnal dysgu cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, Ysgol Awel Taf, a fydd yn agor ym mis Medi 2024.</p> <p>Mae'r Garfan Anghenion Cymhleth Cymraeg (carfan beripatetig arbenigol) yn rhoi cymorth wedi'i selio ar fodel cyflawni cynhwysol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY sy'n cael anawsterau i ymdopi â lleoliadau prif ffrwd. Caiff y cymorth ei ddarparu gan athro arbenigol cyfrwng Cymraeg a dau gynorthwydd cynnal dysgu. Mae dadansoddiad o'r data'n awgrymu bod disgyblion sy'n cael cymorth gan y garfan yma'n gwneud cynnydd tebyg i'w cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg cyfatebol.</p> <p>Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynigion i adlinio darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ledled Rhondda Cynon Taf. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018), mae'r Cyngor hefyd wedi cymeradwyo'r ymgynghoriad statudol a gofynnol perthnasol i sefydlu dau ddsbarth cynnal/cymorth dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol gynradd newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol. Bydd y cynnig yn cychwyn ym mis Medi 2024.</p> <p>Mae hyn yn sicrhau bod continwrm gwell o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, a bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf ALNET 2018. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn</p> |



cyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 ac yn cyfrannu at y CSGA.

**Pa gyfleusterau sydd ar gael i aelodau o'r gymuned i ddysgu Cymraeg neu ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg?**

Bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben.

Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg.

**A yw'n briodol darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl oriau ysgol mewn unrhyw ysgol amgen i sicrhau safonau pellach yn y Gymraeg?**

Bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben.

Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg.

**Ym mha ffordd y byddai modd cefnogi ymgysylltiad rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion ag unrhyw ysgol amgen ac unrhyw welliant iaith penodol y mae'r ysgol yn ei gynnig?**

Mae'r Cyngor wedi llunio a diweddarau llyfryn Bod yn Ddwyeithog. Cafodd y llyfryn yma ei gyhoeddi'n gyntaf ym mis Mawrth 2016. Bwriad y llyfryn yma oedd rhoi gwybodaeth ynglŷn â manteision bod yn ddwyeithog, tynnu sylw at lwybrau i addysg cyfrwng Cymraeg ac ateb cwestiynau cyffredin ynghylch dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Dechrau'n Deg sy'n dosbarthu'r wybodaeth, ac mae hefyd ar gael mewn canolfannau sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned, e.e. deintyddfeydd, meddygfeydd, ysbytai, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd.

Mae Llyfryn 'Dechrau'r Ysgol' y Cyngor hefyd yn darparu ystod o wybodaeth i rieni/gwarcheidwaid, gan gynnwys cyngor ar ddewis ysgol, gwybodaeth am ddarpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol a chyfeirlyfr o ysgolion.

Yn ogystal â hynny, mae'r Swyddog Cymraeg i Blant Lleol yn cynnal sesiynau tyllino a ioga i fabanod yn ddwyieithog. Mae hefyd yn cynnal amser rhigwm Cymraeg wythnosol ledled Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn derbyn negeseuon cynnar allweddol yn ystod y cyfnod cyn-genï ac ar ôl cael babi, ac yn cael gwybod am y llwybr dwyieithog sydd ar gael i'w plentyn.

Mae Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid y Cyngor yn gweithio gyda Menter Iaith a'r Urdd i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth iaith pwrpasol i bobl ifanc, gan dynnu sylw at bwysigrwydd meddu ar y sgil o allu cyfathrebu yn Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddisgyblion sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 2022 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'n gyllid i sefydlu darpariaeth trochi Cymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r iaith. Bydd y ddarpariaeth yn mabwysiadu model teithio peripatetig. Bydd yr arweinydd trochi yn teithio i ysgolion y disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i drochi disgyblion yn y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd ac yn cael ei marchnata'n weithredol. Bydd yn parhau i esblygu wrth i'r galw amdani gynyddu. Pan fydd hynny'n digwydd, bydd y Cyngor yn ystyried creu Uned Drochi Gymraeg benodol ar gyfer hwyrddyfodiaid ochr yn ochr â'i raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B.

**Gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac unrhyw gamau gweithredu y bydd eu hangen yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid er mwyn parhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun.**

Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) Dogfen gynllunio iaith tymor hir yw'r CSGA sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Nod y Cyngor trwy'r CSGA, cynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. Mae modd lawrlwytho a darllen CSGA cyfredol Rhondda Cynon Taf ar wefan y Cyngor:

[Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg \(CSGA\) 2022 – 2032 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(rctcbc.gov.uk\)](https://www.rctcbc.gov.uk)

Mae saith deilliant i'r CSGA, a dau ohonyn nhw yw:

- Rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

- Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY yn unol â'r dyletswyddau sydd wedi'u pennu gan Ddeddf ALNET 2018.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymorth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Cafodd hyn ei wneud trwy'r Siarter Iaith Cyngor Gwynedd, ac amryw o brosiectau eraill, ar y cyd â'r Consortiwm a'r Urdd. Byddai modd i hynny gyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a chyfrannu at y CSGA.

Mae'r Garfan Anghenion Cymhleth Cymraeg (carfan beripatetig arbenigol) yn rhoi cymorth wedi'i selio ar fodel cyflawni cynhwysol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â lleoliadau prif ffrwd. Mae'r cymorth yn cael ei ddarparu gan athro arbenigol cyfrwng Cymraeg a dau gynorthwy-ydd cynnal dysgu. Mae dadansoddiad o'r data'n awgrymu bod disgyblion sy'n cael cymorth gan y garfan yma'n gwneud cynnydd tebyg i'w cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg cyfatebol.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynigion i adlinio darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ledled Rhondda Cynon Taf. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018), mae'r Cyngor hefyd wedi cymeradwyo'r ymgynghoriad statudol a gofynnol perthnasol i sefydlu dau ddsbarth cynnal/cymorth dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol gynradd newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol. Bydd y cynnig yn cychwyn ym mis Medi 2024.

Mae hyn yn sicrhau bod continwwm gwell o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, a bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf ALNET 2018. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn cyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 ac yn cyfrannu at y CSGA.

Does dim angen unrhyw newidiadau i'r cynigion yma er mwyn cydymffurfio â'r CSGA.

## **Cam 2 – Asesu Effaith**

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill – hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

**Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i'w gweld ar Inform trwy [glicio yma](#).**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

|   | <b>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</b> | <b>Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.</b>  | <b>Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma?</b>   | <b>Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?</b>  |
|---|--|--|--|--|
| <p><b>Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg</b></p> <p>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr</p> <p>Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith</p> | <p>Cadarnhaol</p>  | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben.</li> <li>2. Bydd pob arwydd yn yr ysgol yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael, a bydd arwyddion 'Croeso i chi Ddefnyddio'r Gymraeg' yn cael eu gosod yn nerbynfa newydd yr ysgol fel bod pobl yn gwybod fod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.</li> </ol> | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn Ysgol Gymuned Tonyrefail mae'r gwaith yma eisoes yn mynd rhagddo wrth i'r ysgol gynnal dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn y cyfleusterau cymunedol.</li> <li>2. Mae'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth ynghyd am allu'r ymatebwyr i</li> </ol> | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg.</li> </ol> <p>Defnyddio gwefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid, a'r gymuned ehangach yn gwybod ble a phryd mae dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn cael eu cynnal,</p> |

|  |  |   |   |  |
|--|--|---|---|--|
|  |  | <p>Dylai unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg hefyd wisgo bathodynau/laniard sy'n dangos eu bod nhw'n siarad Cymraeg.</p> <p>3. Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi strategaeth bum mlynedd i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd yr ail strategaeth bum mlynedd ei chymeradwyo yn 2022. Mae'r strategaeth honno ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2022 a 2027 ac mae'n amlinellu nifer o feysydd polisi allweddol er mwyn cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod ei hoes, a'i gynyddu. Wrth ddatblygu'r cynnig yma, rydyn ni wedi cymryd Strategaeth Hybu'r Gymraeg Rhondda Cynon Taf a dogfennau eraill i ystyriaeth er mwyn annog a hwyluso twf tymor hir mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Mae'r Cyngor</p> | <p>siarad Cymraeg gan gynnwys cwestiwn ar lefel eu sgiliau Cymraeg. Nododd yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol diweddaraf, ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022, fod 17.9% o ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gallu darllen Cymraeg, o'i gymharu â 26.0% ar gyfer Cymru gyfan.</p> <p>3. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth ynghyd am allu'r</p> | <p>ynghyd â chyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>2. Bydd yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â'r ysgol newydd yn unol â Safonau'r Gymraeg.</p> <p>3. Mae Carfan Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>4. Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3 .</p> <p>5. Rhaid inni weithio'n lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol i sicrhau gweithlu â sgiliau ieithyddol cadarn gyda'r gallu i ysbrydoli ac ysgogi disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg.</p> |
|--|--|---|---|--|

|  |  |  |  |  |
|--|--|--|--|--|
|  |  | <p>wedi sicrhau bod y Cynllun Strategol wedi'i alinio â'r Strategaeth, a bydd yn parhau i wneud hynny.</p> <p>4. Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i'w holl staff mewnol ym mhob gwasanaeth gael hyfforddiant am ddim i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae Carfan Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3 . Bydd hyn yn cefnogi'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor i greu gweithlu dwyieithog gyda'r gallu i weithio a modd i ddarparu</p> | <p>ymatebwyr i siarad Cymraeg gan gynnwys cwestiwn ar lefel eu sgiliau Cymraeg. Nododd yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol diweddaraf, ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022, fod 24.1% o ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dweud eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg, o'i gymharu â 33.4% ar gyfer Cymru gyfan.</p> <p>4. Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor</p> | <p>Mae Is-grŵp CSGA wedi'i sefydlu i weithio tuag at gyflawni deilliant 7 y cynllun. Mae'n cynnwys swyddogion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cydweithio i roi strategaethau ar waith a fydd yn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau bod gyda ni weithlu mewn ysgolion sy'n ddigonol o ran maint a gallu.</p> |
|--|--|--|--|--|

|  |  |   |  |  |
|--|--|---|--|--|
|  |  | <p>gwasanaethau'n ddwyieithog.</p> <p>5. Rhaid i'r Cynghorau weithio i sicrhau bod maint y gweithlu a gallu'r gweithlu yn ddigonol yn yr ysgolion. Er mwyn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn dibynnu ar weithlu ein hysgolion.</p> <p>Deilliant rhif 7 y CSGA yw gweithio tuag at ddarparu mwy o gyfleoedd i gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (y pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> | <p>ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3.</p> <p>5. Nifer y staff mewn ysgolion sy'n cwblhau Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yma'n cael ei gynnig ar lefelau hyfedredd iaith amrywiol, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol arbenigol a pharhaus. Nod y cynllun yw cynyddu nifer y</p> |  |
|--|--|---|--|--|

|  |  |  |   |  |
|--|--|--|---|--|
|  |  |  | <p>staff mewn ysgolion sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Nifer y staff dysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (y pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> |  |
|--|--|--|---|--|

## Cam 2 – Asesu Effaith

A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?

|  | <b>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</b> | <b>Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.</b>   | <b>Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma?</b>  | <b>Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?</b>   |
|--|--|---|---|---|
| <p><b>Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg</b><br/>e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg.</p> | Cadarnhaol   | <p>1. Bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn</p> | <p>1. Yn Ysgol Gymuned Tonyrefail mae'r gwaith yma eisoes yn mynd rhagddo wrth i'r ysgol gynnal dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg</p> | <p>1. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i</p> |



|   |  |   |   |  |
|---|--|---|---|--|
| <p>Cysylltiadau â <a href="#">Strategaeth Cymraeg 2050</a> Llywodraeth Cymru / <a href="#">Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf</a></p> |  | <p>ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben.</p> <p>2. Nod y Cyngor yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, i sicrhau bod disgyblion ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob disgybl fod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hannog a'i chefnogi i wneud hyn drwy gyflawni 'Cymraeg Campus', sef fframwaith i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg.</p> | <p>i oedolion yn y cyfleusterau cymunedol.</p> <p>2. Erbyn mis Ebrill 2023, roedd pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi ennill y wobr efydd ac mae 3 ysgol wedi ennill y wobr arian ar gyfer 'Cymraeg Campus' yn rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg. Yn ogystal â hynny, roedd 2 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi ennill gwobrau efydd ac arian 'Cymraeg Campus' yn rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg.</p> <p>Erbyn mis Ebrill 2023, roedd 43 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi ennill y wobr efydd a 9 wedi ennill y wobr arian ar gyfer 'Cymraeg Campus' yn rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg. Yn ogystal â hynny, roedd 2 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg wedi ennill y wobr efydd ar gyfer 'Cymraeg Campus' yn</p> | <p>rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg.</p> <p>Defnyddio gwefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid, a'r gymuned ehangach yn gwybod ble a phryd mae dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn cael eu cynnal, ynghyd â chyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>2. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hannog a'i chefnogi i wneud hyn drwy gyflawni 'Cymraeg Campus', sef fframwaith i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg.</p> |
|---|--|---|---|--|

|   |            |   |  |   |
|---|------------|---|--|---|
|   |            |   | rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg.  |   |
| <p><b>Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg</b><br/> e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned</p> <p>Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser.</p> | Cadarnhaol | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben.</li> <li>2. Bydd pob arwydd yn yr ysgol yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael, a bydd arwyddion 'Croeso i chi Ddefnyddio'r Gymraeg' yn cael eu gosod yn nerbynfa newydd yr ysgol fel bod pobl yn gwybod fod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.</li> <p>Dylai unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg hefyd wisgo bathodynau/laniard sy'n dangos eu bod nhw'n siarad Cymraeg.</p> <li>3. Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi strategaeth bum mlynedd i</li> </ol> | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn Ysgol Gymuned Tonyrefail mae'r gwaith yma eisoes yn mynd rhagddo wrth i'r ysgol gynnal dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn y cyfleusterau cymunedol.</li> <li>2. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth ynghyd am allu'r ymatebwyr i siarad Cymraeg gan gynnwys cwestiwn ar lefel eu sgiliau Cymraeg. Nododd yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol diweddaraf, ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022, fod 24.1% o ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gallu darllen Cymraeg, o'i gymharu â 33.4% ar gyfer Cymru gyfan.</li> <li>3. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth ynghyd am allu'r ymatebwyr i siarad</li> </ol> | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg.</li> <p>Defnyddio gwefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid, a'r gymuned ehangach yn gwybod ble a phryd mae dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn cael eu cynnal, ynghyd â chyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <li>2. Bydd yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â'r ysgol newydd yn unol â Safonau'r Gymraeg.</li> <li>3. Mae Carfan Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i</li> </ol> |

|  |  |   |  |   |
|--|--|---|--|---|
|  |  | <p>hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd yr ail strategaeth bum mlynedd ei chymeradwyo yn 2022. Mae'r strategaeth honno ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2022 a 2027 ac mae'n amlinellu nifer o feysydd polisi allweddol er mwyn cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod ei hoes, a'i gynyddu. Wrth ddatblygu'r cynnig yma, rydyn ni wedi cymryd Strategaeth Hybu'r Gymraeg Rhondda Cynon Taf i ystyriaeth er mwyn annog a hwyluso twf tymor hir mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod y Cynllun Strategol wedi'i alinio â'r Strategaeth, a bydd yn parhau i wneud hynny.</p> <p>4. Mae Deilliant 5 CSGA yn gweithio tuag at ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.</p> <p>Mae Gwasanaethau Cymraeg, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol a Gwasanaethau</p> | <p>Cymraeg gan gynnwys cwestiwn ar lefel eu sgiliau Cymraeg. Nododd yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol diweddaraf, ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022, fod 24.1% o ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dweud eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg, o'i gymharu â 33.4% ar gyfer Cymru gyfan.</p> <p>4. Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ddefnyddio'r Gymraeg.</p> | <p>siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>4. Mae Is-grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi ei sefydlu i weithio tuag at gyflawni'r deilliant yma. Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cydweithio i weithredu strategaethau a fydd yn y pendraw yn darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol. Mae'r strategaethau'n cynnwys:</p> <p>Gwasanaethau Cymraeg – Datblygu deunyddiau i'w darparu i staff ysgolion i'w cynorthwyo â'u sgiliau Cymraeg.</p> <p>Gwasanaethau Ieuenctid – Trefnu teithiau i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg er mwyn iddyn nhw gael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Creu deunyddiau hyrwyddo i'w rhoi i glybiau ieuenctid ledled Rhondda Cynon Taf a gweithio</p> |
|--|--|---|--|---|

Cerdd y Cyngor i gyd yn gweithio mewn modd rhagweithiol i ddatblygu cyfleoedd i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ddefnyddio'r Gymraeg.

mewn partneriaeth â'r Urdd a Menter Iaith i ddatblygu Fforymau leuenctid cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ynghyd â'r coleg lleol.

Gwasanaethau Hamdden – Gweithio gyda'r Urdd i gyflwyno gweithgareddau chwaraeon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymchwilio i ffyrdd o ymgorffori'r un ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg trwy ddefnyddio model dwyieithog. Gweithio gyda Menter Iaith i ddatblygu cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg mewn sesiynau hamdden.

Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol – Cydweithio gyda Gwasanaethau leuenctid ar raglen o ddarpariaeth mewn gwahanol leoliadau diwylliannol ledled Rhondda Cynon Taf i annog defnydd o'r Gymraeg ac ymgorffori'r Gymraeg mewn digwyddiadau cymunedol.

Gwasanaethau Cerdd – Ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i annog rhyngweithio â'r gwasanaethau cerdd ar gyfer disgyblion sy'n

dangos unrhyw fath o ddawn offerynnol. Cefnogi'r disgyblion yma a'u hannog i gymryd rhan yn yr Eisteddfod.

**Cam 2 – Asesu Effaith**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

|   | <b>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</b> | <b>Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.</b>   | <b>Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn yma?</b>   | <b>Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?</b>  |
|---|--|---|--|--|
| <p><b>Cydymffurfio â Safonau Statudol y Gymraeg</b><br/>           e.e.<br/>           cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith.</p> | <p>Cadarnhaol.</p>   | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd pob ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.</li> <li>2. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Consortiwm Canolbarth y De i ymgorffori eu Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg gyda staff ysgolion yr ysgol newydd. Bydd staff yn cael cymorth i gymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau y fframwaith i wella eu sgiliau Cymraeg.</li> <li>3. Bydd yr holl arwyddion sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.</li> </ol> | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd yr ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog.</li> <li>2. Nifer y staff sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol newydd sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau i wella eu sgiliau Cymraeg. Nifer y staff sy'n gwneud cais ar gyfer Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm</li> </ol> | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd yr ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog.</li> <li>2. Sicrhau bod y Cyngor a Chonsortiwm Canolbarth y De yn mynd ati i farchnata a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i staff mewn ysgolion sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg.</li> <li>3. Sicrhau bod contractwyr yn effro i Safonau'r Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau hynny.</li> </ol> |

|   |  |  |   |  |
|---|--|--|---|--|
|   |  |  | <p>Canolbarth y De er mwyn datblygu sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>3. Arwyddion dwyieithog yn unol â Safonau Statudol y Gymraeg.</p>   |  |
| <p><b>Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</b></p> |  | <p>1. Er mai cyfrwng Saesneg fydd yr ysgol newydd, bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu yn rhan annatod o'r cwricwlwm a bydd pob disgybl ar ei ennill o gael ei addysgu mewn cyfleusterau newydd sbon sy'n addas ar gyfer y 21<sup>ain</sup> ganrif. Bydd yr ysgol newydd yn rhan o Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y Cyngor, rhaglen sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Diben y Rhaglen yw sicrhau bod yna ysgolion da, fel bod gyda phob plentyn a pherson ifanc, waeth beth yw eu hangen dysgu, fynediad teg i addysg o safon dda trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff y diben yma'i gyflawni drwy adeiladu'r ysgol arbennig newydd yma ar gyfer disgyblion ag ADY yn RhCT.</p> | <p>1. Mae Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor yn cynnwys ystod eang o ysgolion, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mewn gwahanol rannau o Rondda Cynon Taf. Er mai cyfrwng Saesneg fydd yr ysgol newydd, bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu yn rhan annatod o'r cwricwlwm a bydd pob disgybl ar ei ennill o gael ei addysgu mewn cyfleusterau newydd sbon sy'n addas ar gyfer y 21<sup>ain</sup> ganrif.</p> <p>2. Yn Ysgol Gymuned Tonyrefail mae'r gwaith yma eisoes yn mynd rhagddo wrth i'r ysgol gynnal dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg</p> | <p>1. Bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu yn rhan annatod o'r cwricwlwm a bydd pob disgybl ar ei ennill o gael ei addysgu mewn cyfleusterau newydd sbon sy'n addas ar gyfer y 21<sup>ain</sup> ganrif.</p> <p>2. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg.</p> <p>Defnyddio gwefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol i sicrhau bod</p> |

|  |  |  |   |  |
|--|--|--|---|--|
|  |  | 2. Bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddog i ben. | i oedolion yn y cyfleusterau cymunedol. | rhieni/gwarcheidwaid, a'r gymuned ehangach yn gwybod ble a phryd mae dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn cael eu cynnal, ynghyd â chyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. |
|--|--|--|---|--|

### **Cam 3 – Gwella'r cynnig**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod?

| <b>Beth rydych chi'n mynd i'w wneud?</b>   | <b>Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?</b>   | <b>Pwy sy'n gyfrifol?</b>   |
|--|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda'r ysgol newydd a chynnig dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Pan fydd yr ysgol arbennig 3 i 19 newydd arfaethedig yn agor.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor – Carfan Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.</li> </ul> |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio gwefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid disgyblion yr ysgol newydd, a'r gymuned ehangach, yn gwybod ble a phryd mae dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn cael eu cynnal, ynghyd â chyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Pan fydd yr ysgol arbennig 3 i 19 newydd arfaethedig yn agor.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor – Carfan Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.</li> </ul> |

|   |  |   |
|---|--|---|
| <p>gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>  |  |   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid i'r Cynghorau weithio i sicrhau bod maint y gweithlu a gallu'r gweithlu yn ddigonol yn yr ysgolion. Er mwyn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn dibynnu ar weithlu ein hysgolion.</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo.</li> </ul>                             | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor.</li> <li>Consortiwm Canolbarth y De.</li> </ul> |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Nod y Cyngor yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, i sicrhau bod disgyblion ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob disgybl fod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hannog a'i chefnogi i wneud hyn drwy gyflawni 'Cymraeg Campus', sef fframwaith i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo.</li> </ul>                             | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor.</li> <li>Consortiwm Canolbarth y De</li> </ul>  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y Cydlynnydd CSGA yn parhau i gydweithio â phartneriaid</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gwaith yn parhau trwy gydol cyfnod y CSGA rhwng 2022 a 2032.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cydlynnydd CSGA Cyfarwyddiaeth Addysg a</li> </ul>   |



|  |  |   |
|--|--|---|
| <p>i ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn cyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.</p> |  | <p>Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor.</p> |
|--|--|---|

Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam. Rhwng ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu.

|                       |                             |
|-----------------------|-----------------------------|
| <b>Beth a nodwyd?</b> | <b>Pam nad yw'n bosibl?</b> |
| Dd/B.                 | Dd/B.                       |

**Cam 4 – Adolygu**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae'n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at wasanaethau Cymraeg – [Swyddoglaith@rctcbc.gov.uk](mailto:Swyddoglaith@rctcbc.gov.uk) a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – [ymgynghoriad@rctcbc.gov.uk](mailto:ymgynghoriad@rctcbc.gov.uk) yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Arweinwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost [BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk](mailto:BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk) fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. [Darllenwch ein dogfen ganllaw](#) i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod yn diweddarau'r adrannau perthnasol isod mewn cydweithrediad â'r adrannau perthnasol.

| <b>Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg</b> | <b>Dyddiad Ystyried y Cynnig</b> | <b>Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg</b> |
|---|----------------------------------|---|
| I'w gadarnhau                               | I'w gadarnhau                    | I'w gadarnhau   |

|  |                                  |  |
|--|----------------------------------|--|
| <b>Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu</b>   | <b>Dyddiad Ystyried y Cynnig</b> | <b>Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu</b> |
| I'w gadarnhau  | I'w gadarnhau                    | I'w gadarnhau  |
| <b>Sylwadau'r Adran Ymgynghori</b>   | <b>Dyddiad Ystyried y Cynnig</b> | <b>Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad</b>                             |
| I'w gadarnhau  | I'w gadarnhau                    | I'w gadarnhau  |
| <b><u>Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu</u></b>  |                                  |  |
| Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy?  |                                  |  |
| Bydd Carfan Ysgolion y 21 <sup>ain</sup> Ganrif sy'n rhan o Gyfarwyddiaeth y Cyngor ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ynghyd â Charfan Eiddo'r Cyngor, yn monitro'r cynnig yma trwy gydol y cyfnodau dylunio, adeiladu a gweithredu, a bydd cyfarfodydd adolygu misol yn cael eu cynnal.  |                                  |  |
| <b><u>Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig</u></b>   |                                  |  |
| Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau o'r Gymraeg yn nhempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad. |                                  |  |
| <i>Cwblhawyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn:</i>   |                                  |  |
| Y cynnig yw agor ysgol arbennig 3 i 19 newydd yn RhCT ar gyfer 180 o ddisgyblion. Serch hynny, bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad asesiad dichonoldeb pellach ac yn dilyn bwrw ymlaen â chynllun manwl yr ysgol newydd. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn ardal Cwm Clydach, Tonypany, ac yn agor ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2026 fan bellaf. Mae'r ysgol newydd yn ychwanegol at y pedair ysgol arbennig ledled RhCT. Yn ogystal â hynny, y cynnig ydy cyflwyno dalgylchoedd ar gyfer ysgolion arbennig.  |                                  |  |
| Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â gofynion presennol y ddeddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr ysgol yn cynnwys:   |                                  |  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amgylcheddau dysgu modern, hyblyg i bob disgybl, neuadd/ardal giniawa, ac ardaloedd addysgu a dysgu arbenigol i ddarparu ar gyfer anghenion pob disgybl.</li> <li>• Pwll hydrotherapi ynghyd ag offer arbenigol synhwyraidd ac ysgogol arall.</li> <li>• Ardal benodol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.</li> </ul>  |                                  |  |

- Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau mae'r cwricwlwm yn eu cynnig.
- Dulliau rheoli traffig, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff.

Bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben.

Er mai cyfrwng Saesneg fydd yr ysgol newydd, bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu yn rhan annatod o'r cwricwlwm a bydd pob disgybl ar ei ennill o gael ei addysgu mewn cyfleusterau newydd sbon sy'n addas ar gyfer y 21<sup>ain</sup> ganrif.

Nod y Cyngor yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, i sicrhau bod disgyblion ar lwybr parhaus o ran eu dilyniant ieithyddol a bod hyn yn eu helpu wrth bontio rhwng Cyfnodau Allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob disgybl fod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n alinio â Chwricwlwm i Gymru 2022. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hannog a'i chefnogi i wneud hyn drwy gyflawni 'Cymraeg Campus', sef fframwaith i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r Siarter Iaith Gymraeg.

Bydd yr ysgol gymunedol newydd yn gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel yn ystod oriau ysgol ac ar ôl i'r diwrnod ysgol ddod i ben. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg. Bydd modd iddo/iddi gynnig y cyfle i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion a/neu gyfleoedd eraill i'r gymunedol gael cyfathrebu yn Gymraeg.

Byddai modd i hynny gyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a chyfrannu at y CSGA.

### **Cam 7 – Cymeradwyo**

|  |  |  |   |
|--|--|--|---|
| <b>Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg</b> | Lisa Howell  | <b>Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:</b>               | Andrea Richards.  |
| <b>Swydd</b>   | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif | <b>Rydw i'n argymhell bod y cynnig: (Tynnwch</b> | <b>Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau</b>                                |
|  |  |  | <b>Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu</b> |

|                |            |   |   |
|----------------|------------|---|---|
|                |            | <b>sylw at y penderfyniad)</b>          | <b>Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg</b> |
| <b>Llofnod</b> |            | <b>Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth</b> |   |
| <b>Dyddiad</b> | 07.06.2023 | <b>Dyddiad</b>                          |   |

DRAFT